Department for Education

# Ymgynghoriad ar - Reoliadau cynllun pensiwn athrawon - diwygiadau arfaethedig 2017

## Crynodeb o’r sylwadau a dderbyniwyd ac ymateb y Llywodraeth.

Tachwedd 2017

# Cynnwys

**Cyflwyniad** **3**

Pam bod yr Adran wedi ymgynghori ar newidiadau pellach i drefniadau'r TPS 3

Proses ymgynghorol 4

Crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd ac ymateb y Llywodraeth 4

Ymatebion i'r Ymgynghoriad 5

Diwygiad 1: Salwch 5

Ymateb y Llywodraeth ar Ddiwygiad 1 5

Diwygiad 2: Cymudiad Salwch Difrifol 5

Ymateb y Llywodraeth ar Ddiwygiad 2 5

Diwygiad 3: Enillion Pensiynadwy Ymddeoliad Fesul Cam 6

Ymateb y Llywodraeth ar Ddiwygiad 3 6

Diwygiad 4: Diwygiadau Technegol 6

Ymateb y Llywodraeth ar Ddiwygiad 4 6

Ymateb cyffredinol y Llywodraeth 6

Camau nesaf 6

**Atodiad A: Rhestr o'r sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad** **7**

# Cyflwyniad

1. Yn dilyn cyflwyno diwygiadau i'r Cynllun Pensiwn Athrawon (TPS), yn Ebrill 2015, dynododd yr Adran ddiwygiadau technegol sy'n ofynnol i Reoliadau Pensiynau Athrawon 2010 (TPR 2010) a'r Rheoliadau Cynllun Pensiwn Athrawon 2014 (TPSR 2014).
2. Mae'r rhain yn ymwneud â phedwar maes penodol: ymddeol oherwydd salwch; cymudiad salwch difrifol; ymddeol fesul cam yng nghyswllt gweithwyr anghyson; a mân ddiwygiadau technegol, ac mae eu hangen i sicrhau bod y trefniadau yn gweithio yn llawn fel y bwriadwyd, yn unol ag ymgynghoriadau blaenorol ar y rheoliadau dan sylw.

## Pam bod yr Adran wedi ymgynghori ar newidiadau pellach i drefniadau'r TPS

3. Mae'r nodyn esboniadol i'r rheoliadau yn rhoi mwy o fanylion am y newidiadau dan sylw ond i grynhoi maent fel a ganlyn:

**Salwch**

4. Fel rhan o'r diwygiadau i'r TPS, diwygiodd yr Adran y trefniadau yn ymwneud â cheisiadau am fuddion ymddeol oherwydd salwch. Roedd hyn yn cynnwys ymestyn yr amser am geisiadau mewn gwasanaeth o chwe mis i ddwy flynedd er mwyn rhoi gwell darpariaeth i'r rhai sydd â salwch sy'n datblygu'n araf ac yn anodd cael diagnosis ar ei gyfer.
5. Er mwyn gallu cyflawni'r polisi a fwriadwyd yn llawn, mae'n ofynnol diwygio TPR 2010 i gael gwared ar yr amod bod yn rhaid i aelod fod yn analluog yn barhaol ar adeg gadael y gwasanaeth pensiynadwy.
6. Cynigiwyd diwygiad arall i TPR 2010 a TPSR 2014 i atgyfnerthu'r angen i gael cysylltiad rhwng y salwch ar adeg gadael a'r salwch ar adeg y cais.
7. Mae'r newidiadau hyn yn ei gwneud yn glir y gall aelodau sy'n wael ar adeg gadael, ond nad ydynt eto wedi bodloni'r amodau anallu, wneud cais wedyn (cyn pen dwy flynedd) a fydd yn cael ei ystyried mewn cymhariaeth â'r meini prawf mewn gwasanaeth pan fydd yr un salwch, neu salwch cysylltiedig dan sylw.

**Cymudiad Salwch Difrifol**

8. Y polisi yma yw, unwaith y bydd aelod yn dewis cymudiad salwch ac i'r cais gael ei gymeradwyo, yna dyna'r budd fydd yn cael ei dalu, gan gynnwys petai'r aelod, yn anffodus, yn marw rhwng derbyn y cais ac i'r taliad gael ei wneud.
9. Mae hyn yn dilyn y bwriad polisi cyffredinol yn y TPS mai'r budd a ddewisir gan yr aelod, pan fydd yn bosibl, yw'r budd a delir. Ond, mae'r rheoliadau fel y maent wedi eu drafftio ar hyn o bryd, yn creu'r posibilrwydd y gall amwyster godi am y taliadau a ddylai fod yn berthnasol.

**Enillion Pensiynadwy Ymddeoliad Fesul Cam**

10. Mae'r darpariaethau presennol yn ei gwneud yn ofynnol i aelod, sy'n dewis ymddeol fesul cam, gymryd gostyngiad yn ei enillion pensiynadwy o ddim llai na 20% o'i enillion pensiynadwy cyn y camau. Ar hyn o bryd mae enillion cyn y camau yn cael eu pennu trwy ddefnyddio cyfartaledd enillion blynyddol yr aelod yn y chwe mis yn union cyn cymryd yr ymddeoliad fesul cam. Nid yw'r ddarpariaeth hon yn cynnwys pob math o aelod yn briodol; yn neilltuol, gall achosi problemau i weithwyr anghyson, pan, er enghraifft, fydd y cyfnod o chwe mis yn union cyn yr ymddeoliad fesul cam yn cynnwys gwyliau di-dâl.
11. Er mwyn ymdrin â'r mater hwn, cynigiodd yr Adran newid y cyfrifiad cyfartaledd enillion cyn y camau i'r cyfartaledd dros y 12 mis diwethaf.

**Diwygiadau Technegol**

12. Cynigiodd yr Adran hefyd wneud y diwygiadau technegol canlynol i sicrhau bod bwriad y polisi yn cael ei adlewyrchu yn glir yn y rheoliadau:
    - Diwygiad yng ngeiriad y rheoliad am welliant actiwaraidd ymddeoliad hwyr yn y trefniadau cyfartaledd gyrfa i egluro mai dim ond pensiwn sydd wedi ei gronni hyd at oedran pensiwn arferol sy'n cael ei wella.
    - Diwygiad i newid y cyfeiriad at "gyflogwr" ym mharagraff 8 (1) Atodlen 1 i Reoliadau 2014 i "reolwr y cynllun" i gywiro gwall wrth ddrafftio.
    - Diwygiad i ddarparu bod cais am ymddeoliad cynnar allan o wasanaeth yn ddi-rym os bydd yr aelod yn dychwelyd i waith cymwys cyn y dyddiad hawlio a nodir yn y cais.

## Proses ymgynghorol

13. Roedd yr ymgynghoriad yn rhedeg o 29 Gorffennaf 2016 hyd 16 Medi 2016. Roedd y ddogfen ymgynghorol a'r rheoliadau drafft ar gael ar wefan Gov.UK a gellid anfon ymatebion i'r Adran Addysg trwy e-bost neu trwy'r post.
14. Wrth gyhoeddi'r ddogfen, anfonwyd manylion yr ymgynghoriad at grwpiau rhan-ddeiliaid allweddol a chyrff cynrychioliadol, gan gynnwys yr undebau athrawon a chymdeithasau cyflogwyr. Yn ychwanegol, mae'r Adran wedi ymwneud yn rhagweithiol ag undebau a chyflogwyr a'u cyfarfod i drafod y cynigion, cyn, yn ystod ac ar ôl y broses ymgynghori.

## Crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd ac ymateb y Llywodraeth

15. Derbyniwyd cyfanswm o 4 ymateb ysgrifenedig. Roedd y rhain yn cynnwys ymatebion gan undebau athrawon a rhan-ddeiliad annibynnol.

16. Mae'r Adran wedi ystyried pob ymateb a nodir crynodeb o'r prif bwyntiau a godwyd dan bob adran i'r ymgynghoriad, ynghyd â safbwynt terfynol yr Adran isod.

# Ymatebion i'r Ymgynghoriad

17. Gofynnodd yr Adran i'r rhan-ddeiliaid am eu barn ar y cynigion i ddiwygio 4 darpariaeth benodol yn y rheoliadau.

### Diwygiad 1: Salwch

18. Roedd tri ymateb i'r ddarpariaeth hon, y cyfan yn cefnogi bwriad yr Adran i dynnu'r gofyn i aelod fod yn analluog yn barhaus ar adeg gadael y gwasanaeth pensiynadwy.
19. Cyfeiriodd un ymateb at fewnosod paragraff (3A) yn rheoliad 110 Rheoliadau Cynllun Pensiwn Athrawon 2014. Roedd yr ymholiad yn cyfeirio at ddefnyddio "cyflogaeth gymwys" yn is-baragraff (a) ac yn gofyn ai "gwasanaeth pensiynadwy" oedd y term cywir.

### Ymateb y Llywodraeth ar Ddiwygiad 1

20. Mae'r Adran yn ddiolchgar am y farn a dderbyniwyd ac yn cytuno y bydd y rheoliadau, fel y maent yn cael eu cynnig, yn egluro'r polisi nad oes raid i aelod fod yn analluog yn barhaus ar adeg gadael gwasanaeth pensiynadwy. Bydd hyn o gymorth i'r rhai sydd â salwch sy'n datblygu'n araf, neu'n anodd cael diagnosis arno, i gael yr un mynediad at fuddion salwch ag aelodau eraill.
21. Mae darpariaeth paragraff (3A) (a) yn ymwneud â'r salwch ar yr adeg y mae'r aelod yn gadael pob gwasanaeth pensiynadwy ac angen cysylltiad rhwng y salwch hwnnw a'r salwch ar adeg gwneud cais oherwydd salwch. Felly, "gwasanaeth pensiynadwy" ddylai'r term cywir fod.
22. Mae'r Adran hefyd yn derbyn barn un ymatebydd, bod darpariaethau salwch yn gymhleth, ac na ellir osgoi hynny, a byddwn yn sicrhau bod cyfarwyddyd addas ar gael i bob aelod.

### Diwygiad 2: Cymudiad Salwch Difrifol

23. Dim ond un o'r ymatebwyr a ymatebodd yn uniongyrchol i'r ddarpariaeth hon er bod y gweddill wedi mynegi eu bod yn cytuno â'r holl newidiadau arfaethedig. Roedd yr ymatebwr yn bryderus y gallai'r newid arfaethedig, mewn rhai amgylchiadau, leihau gwerth y buddion taladwy i fuddiolwyr yr aelod. Yn hytrach, cynigiodd yr ymatebwr, pan fyddai gwerth y grant marwolaeth yn fwy na'r pensiwn a gymudwyd, y dylid talu'r gwerth uchaf.

### Ymateb y Llywodraeth ar Ddiwygiad 2

24. Mae'r Adran wedi ystyried y cynnig i roi darpariaeth 'gorau o'r ddau' i geisiadau salwch difrifol; ond, nid ydym yn ystyried bod hon yn ffordd addas ymlaen.

25. Bwriad y cynnig yw egluro'r sefyllfa pan dderbynnir cais am gymudiad salwch difrifol ac i sicrhau bod gan yr aelod y pŵer i bennu sut, ac i bwy, y telir ei fuddion.

26. Derbynnir y gall gwerth grant marwolaeth, mewn rhai amgylchiadau, fod yn uwch na gwerth y cymudiad. Yn yr un modd, gall gwerth y cymudiad fod yn fwy na gwerth y grant marwolaeth. Ond bwriad y diwygiad hwn yw rhoi'r gallu i'r aelod wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth, ar sail ei amgylchiadau personol.

27. Nid yw'r Adran yn ystyried ei bod yn briodol ceisio dychmygu bwriad aelod, na thybio beth yw diben y cymudiad. Bydd y diwygiad arfaethedig yn ei gwneud yn glir bod gan aelod y pŵer i benderfynu pa daliad y dylid ei wneud.

28. Er mwyn cynorthwyo aelodau yn y sefyllfa hon, bydd yr Adran yn datblygu a chyhoeddi cyfarwyddyd ac yn sicrhau bod Pensiynau Athrawon yn gallu rhoi amcangyfrif o bob math o fudd i aelodau pan ofynnir amdanynt.

### Diwygiad 3: Enillion Pensiynadwy Ymddeoliad Fesul Cam

29. Roedd pawb a ymatebodd i'r cynnig hwn yn cytuno y byddai'r diwygiad yn lleihau'r posibilrwydd y byddai gweithwyr rhan-amser ac anghyson yn cael eu trin yn llai ffafriol.

### Ymateb y Llywodraeth ar Ddiwygiad 3

30. Mae'r Adran yn gwerthfawrogi'r sylwadau a wnaed a bydd yn sicrhau bod y diwygiad yn cael ei gyfleu yn briodol.

### Diwygiad 4: Diwygiadau Technegol

31. Cefnogodd tri o'r ymatebwyr y diwygiadau technegol yma a mynegodd y pedwerydd gefnogaeth i'r holl gynigion.

### Ymateb y Llywodraeth ar Ddiwygiad 4

32. Mae'r Adran yn ddiolchgar i'r holl ymatebwyr am eu barn a bydd yn symud ymlaen, fel y cynigir, gyda'r diwygiadau technegol.

## Ymateb cyffredinol y Llywodraeth

33. Mae'r Adran yn gwerthfawrogi'r gwaith y mae'r ymatebwyr wedi ei roi i ystyried a rhoi sylwadau ar y materion dan sylw. Edrychodd yr Adran yn ofalus ar yr holl sylwadau a roddwyd. Yn unol â'r ymatebion uchod, mae'r Adran yn ystyried y dylai'r rheoliadau drafft yn awr fod yn sail i'r rheoliadau terfynol.

## Camau nesaf

34. Bydd y rheoliadau drafft yn awr yn sail ar gyfer y rheoliadau terfynol. Y nod yw cwblhau'r gwaith ar y rhain a'u gwneud a'u cyflwyno ger bron y Senedd ym mis Tachwedd 2017. Bydd y diwygiadau yn dod i rym ar 30 Tachwedd 2017.

# Atodiad A: Rhestr o'r sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad

Mae'r canlynol yn rhestr o bobl a sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad.

- Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL)
- Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT)
- Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT)
- Prudential